CYNGOR CYMUNED LLANDYSUL COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion Cyfarfod Misol Cyngor Cymuned Llandysul a gynhaliwyd yng Nghanolfan Ieuenctid Tysul Youth Centre, Llandysul a thrwy gyfrwng Zoom, ar 12fed Hydref 2026
Minutes of Monthly Meeting of Llandysul Community Council held at Canolfan Ieuenctid Tysul Youth Centre, Llandysul and via Zoom, on 12th October 2026

Yn Bresennol/Present:
Cynghorwyr/Councillors Beth Davies (21.10), Douglas Davies, Deiniol Evans, Peter Evans (Cadeirydd/Chair), Gethin Jones (19.38), Sue Lloyd, Eifion Rees a/and Keith Evans sydd hefyd yn/ who is also Gynghorydd Sir De Llandysul / County Councillor Llandysul South/ a/and Chynghorydd Sir Gogledd Llandysul a Throedyraur/ County Councillor Llandysul North Troedyraur Maldwyn Lewis.

Ymddiheuriadau/Apologies,
Cafwyd ymddiheuriadau gan Gynghorwyr Beth Davies (a fyddai'n cyrraedd yn hwyr), Heddwen Davies, Eileen Curry ac Elen Grantham. Fodd bynnag, roedd Elen Grantham wedi mynychu am rhyw 5 munud i roi gwybodaeth am ei ward i'w chyd gynghorydd ar gyfer Ward Capel Dewi. / Apologies were given by Councillors Beth Davies (who would be late), Heddwen Davies, Eileen Curry and Elen Grantham. Elen Grantham however attended for some 5 minutes to provide ward information to her colleugue in the Capel Dewi Ward.

Datgelu Buddiannau/Declarations of Interest Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau. / No declarations of interest were received.

Adroddiad gan Heddlu Dyfed Powys /Report from Dyfed Powys Police

Ni chafwyd adroddiad. / No report was received.

Cofnodion/Minutes

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod misol a gynhaliwyd ar 14.09.2026. / Minutes of monthly meeting held on 14.09.26 were confirmed.

Cyrhaeddodd Cynghorydd Gethin Jones am 19.38. / Cllr Gethin Jones arrived at 19.38hrs.

DRAFT

Materion yn Codi: -

Nid yw'r clerc wedi cael dyfynbris er mwyn adnewyddu'r grisiau ym maes parcio y Cyngor Cymuned o hyd.

4) Ceisiadau Ariannol:

Llandysul Pont-tyweli Ymlaen

Gŵyl Gerdded

Cais am rodd o £500 er mwyn cynorthwyo gyda'r gwaith o redeg penwythnos Croeso i Gerddwyr, a thalu'r gost o'i hyrwyddo. Penderfynwyd rhoi'r swm y gofynnwyd amdano.

Ardal Pren-gwyn

Penderfynwyd rhoi'r swm o £300 tuag at gost batris a phadiau ar gyfer y diffibriliwr ym Mhren-gwyn. Bydd Cynghorydd Beth Davies yn trefnu eu bod yn cael eu harchebu. Ar ôl i Sioe Pren-gwyn ddod i ben, roedd ganddynt £250 yn eu cyfrif o hyd i dalu costau cyffredinol. Trosglwyddir yr arian hwn i gyfrif Cyngor Cymuned Llandysul, a fydd yn talu'r gost gyffredinol o ddarparu'r offer gofynnol.

Ffermwyr Ifanc Pontsiân

Gofynnwyd am y swm o £750 er mwyn helpu i gynnal y noson tân gwyllt flynyddol ar gyfer yr ardal ym Mhontsiân. Penderfynwyd rhoi'r swm y gofynnwyd amdano gan bod hyn o gymorth wrth sicrhau diogelwch pawb sy'n mynychu'r digwyddiad poblogaidd hwn.

Gohebiaeth
Dim

5) Materion i'w Trafod

Seddau Gwag Ward Tref Llandysul
Atgoffwyd y cynghorwyr o'r ffaith bod dwy sedd wag yn Ward Tref Llandysul o hyd, ac i annog unigolion i ymgeisio am y seddau gwag.

Lle Chwarae Plant Llandysul
Roedd y clerc a Chynghorydd Deiniol Evans wedi cyfarfod gyda chynrychiolydd o Wickstead i gael cyfarfod safle. Rydym yn

Matters Arising: -

The clerk has still not received a quotation for refurbishing the steps in the Community Councils carpark.

4) Funding Applications:

Llandysul Pont-tyweli Ymlaen

Gwyl Gerdded

A request for a donation of £500 to assist with the running and promotional costs of the Walkers are Welcome weekend. It was decided to donate the requested amount.

Ardal Prengwyn

It was decided to donate £300 towards the costs of batteries and pads for the defibrillator in Prengwyn. Cllr Beth Davies to arrange to order them. Following the secession of the Prengwyn Show they still had £250 in their account to go towards the overall costs. This money will be transferred to the Llandysul Community Councils account who will cover the overall cost of providing the required equipment.

Pontsian Young Farmers

£750 was requested to help with hosting the annual firework display for the area in Pontsian. It was decided to donate the requested amount as this aids the safety of all who attend this well supported event.

Correspondence
None

5) Matters for Discussion

Vacant Seats Llandysul Town Ward
Councillors were reminded that there were still two vacant seats in the Llandysul Town Ward and to

DRAFT

aros am ddyfynbris am y canlynol o hyd

- Adnewyddu'r offer yn unol ag adroddiad Rospa (nid yr offer chwarae mawr)
- Prynu offer newydd yn lle'r rhai sydd wedi torri.

Diffibriliwr

Cyflwynwyd adroddiad gan Gynghorydd Keith Evans am y Diffibrilwyr yn ein cymuned. Mae gofyn i bob Cynghorydd lenwi'r dudalen excel a anfonwyd gan y clerc. Bydd y clerc yn nodi ac yn cysylltu â'r unigolion yn y lleoliadau eraill a amlygwyd ar fap y Circuit, nad ydynt yn ymddangos ar y daenlen, erbyn y cyfarfod nesaf.

Polisïau

Roedd y cynghorwyr yn derbyn bod yr holl bolisïau yn gywir, ond mynegodd Cynghorydd Eifion Rees yr angen i ailystyried y weithdrefn gwynion. Bydd yn cysylltu â'r clerc yn nodi ei bryderon.

Cyrsiau i Gynghorwyr Newydd gan Un Llais Cymru

Roedd y clerc wedi anfon gwybodaeth at Gynghorwyr Heddwen Davies, Deiniol Evans ac Eifion Rees am y dyddiadau sydd ar gael er mwyn mynychu'r cyrsiau ymsefydlu i Gynghorwyr Newydd. Mae hi'n aros am ymateb o hyd yn nodi pa ddyddiad sy'n gyfleus iddynt.

Cinio Nadolig

Penderfynwyd gofyn a yw'r holl Gynghorwyr ar gael ar 20 Tachwedd gan nad oedd 14 Tachwedd ar gael gan Westy'r Porth.

Materion Ward Brys

Capel Dewi

Nododd Cynghorydd Douglas Davies bod pryderon sylweddol yng Nghapel Dewi encourage individuals to apply for the vacancies.

Llandysul Children's Play area

The clerk and Councillor Deiniol Evans had met with a representative from Wickstead for a site meeting. We are still awaiting a quotation for the following

- Refurbishment of the equipment as per Rospa report (not the big play apparatus)
- Purchase of new equipment for the broken ones.

Defibrillator

Cllr Keith Evans presented a report on the Defibrillators in our community. All Councillors to fill in the excel sheet sent by the clerk. The clerk to identify and contact the individuals at the other locations highlighted on the Circuit map that does not appear on the spreadsheet by the next meeting.

Policies

Councillors accepted all policies as correct, but Cllr Eifion Rees expressed the need to re-look at the complaints procedure. He is to contact the clerk with his concerns.

One Voice Wales New Councillor Courses

The clerk had sent Cllrs Heddwen Davies, Deiniol Evans and Eifion Rees available dates to attend the New Councillor induction course. She was still waiting for a response to what date was convenient for them.

DRAFT

ynghylch yr hen chwarel. Roedd ffens wedi cael ei godi o'i chwmpas ond roeddent yn pryderu am y cynlluniau ar gyfer y safle yn y dyfodol.

Maesymeillion

Nid yw'r fainc a'r blwch post ym Maesymeillion wedi cael eu disodli. Bydd y Clerc yn cysylltu â Swyddfa'r Post.

Gorrig

Roedd Cynghorydd Beth Davies yn dymuno adrodd bod y ffens pren wrth gyffordd croesffordd Gorrig yn cwympo, a bydd y clerc yn dwyn sylw system galw am wasanaeth Clic Cyngor Sir Ceredigion at y mater hwn.

Llandysul

Mae golau stryd ymlaen ddydd a nos yn Stryd Cambria. Bydd y clerc yn adrodd am hyn wrth CLIC.

Bydd y clerc yn cael dyfynbrisiau am sachau bylbiau cennin pedr i'w plannu ar hyd y ffordd osgoi.

Esboniodd Cynghorydd Keith Evans bod yr adroddiad am yr ymgynghoriad ynghylch parcio ar y stryd ar fin cael ei gyhoeddi, ac y byddai ar gael i'r Cyngor Cymuned ei ystyried cyn bo hir. Bydd y clerc yn anfon copi at bob Cynghorydd pan fydd hi'n ei gael.

Esboniodd Cynghorydd Keith Evans y byddai angen i Gynghorydd gynrychioli'r Cyngor Cymuned ar Gorff Llywodraethu Ysgol Bro Teifi. Ni chafwyd llythyr eto.

Adroddwyd am honiad bod unigolyn sy'n byw mewn eiddo yn Nheras Clifton yn taflu sbwriel i'r gerddi oddi tano. Bydd y clerc yn adrodd am hyn wrth CLIC a'r PCSO.

Cafwyd cwyn bod pobl ifanc yn ymgynnull ac yn creu niwsans ar hyd y ffordd bob nos Iau, sef yr un noson ag y mae'r Clwb ieuenctid yn cwrdd. Adroddwyd hefyd bod ychydig Graffiti ar waliau mewnol y toiledau cyhoeddus a bod cynhwyswyr cludfwyd yn cael eu gadael yn y troethleoedd, er bod digon o finiau sbwriel gerllaw y toiledau. Bydd y clerc yn dwyn sylw Steve Parkin, Gweithiwr Ieuenctid, a'r PCSO at y mater.

Pontsiân

Christmas Dinner

It was decided to ask if all Councillors were available on the 20 November as the 14th was not available with the Porth Hotel.

Urgent Ward Matters

Capel Dewi

Cllr Douglas Davies advised that there were considerable concerns in Capel Dewi regarding the old quarry. It had been fenced off but they were worried as what the future plans may be.

Maesymeillion

The bench and post-box in Maesymeillion had not been replaced. The Clerk to contact the Post Office.

Gorrig

Cllr Beth Davies wished to report that the wooden fencing on Gorrig cross-roads junction was falling down, the clerk to bring this to the attention of the Clic call for service system within Ceredigion County Council.

Llandysul

A street light is on day and night in Cambrian Street. The clerk to report this to CLIC.

The clerk to get quotations for bags of daffodil bulbs to plant on the bypass.

Cllr Keith Evans explained that the street parking consultation report was due and would be available soon for consideration by the Community Council. The clerk to send a copy to all Councillors when she received it.

Cllr Keith Evans explained that there would be a need for a Councillor to represent the Community Council on the Governing Body of Bro Teifi School. A letter had not been received to date.

DRAFT

Esboniodd Cynghorydd Gethin Jones yr angen i Geredigion wneud gwaith cynllunio gwell cyn cau ffyrdd.

Adroddiad gan Gynghorwyr Sir

Cafwyd gohebiaeth ar ffurf neges e-bost yn rhoi gwybodaeth fanwl i'r Cyngor am weithgareddau Cynghorydd Keith Evans, ward De Llandysul, yn ystod y cyfnod rhwng 15 Medi a 12 Hydref, ac fe'i nodwyd. Amlygodd Cynghorydd Maldwyn Lewis rai materion yn ymwneud â'r ward a'r Cyngor Sir, ac roedd yn dymuno llongyfarch y Garthen hefyd am y gwasanaeth a'r newyddion lleol y mae wedi ei ddarparu dros 45 mlynedd ers iddo gael ei sefydlu.

Bardd y Dref

Penderfynwyd y dylai'r clerc gysylltu â'r Adran Gymraeg yn Ysgol Bro Teifi ynghylch prosiect Bardd y Dref er mwyn gweld a oes ganddynt unrhyw awgrymiadau er mwyn cymryd rhan yn y prosiect o bosibl.

Gohebiaeth

Cafwyd Clerks and Councils Direct ac fe'i nodwyd.
Cafwyd cylchgrawn Ceredigion Oed-Gyfeillgar

Sul y Cofio

Cafwyd llythyr gan y Parchedig Ganon Gareth Reid yn estyn gwahoddiad i aelod o'r Cyngor roi darlleniad yn ystod gwasanaeth Sul y Cofio a gynhelir yn Eglwys Sant Tysul ar ddydd Sul 8 Tachwedd 2026 am 11.00am. Bydd gofyn i'r rhai sy'n rhan o'r orymdaith ymgynnull wrth y plac coffa ger mynediad y Parc Coffa am 10.45am.
Byddai'r Cadeirydd, Peter Evans, yn cynrychioli'r Cyngor ac yn gwneud y darlleniad, cyn cyflwyno torch ar ran y Cyngor Cymuned.
Estynnwyd gwahoddiad i bawb fynychu.
Penderfynwyd rhoi £150.00 er budd Apêl Blynyddol y Pabi

Archwilio Cymru

It was reported that an individual residing at a property in Clifton Terrace was allegedly throwing refuse to the gardens below. The clerk to report this to CLIC and the PCSO.
A complaint had been received that young people were congregating and creating a nuisance on the road on Thursday Night coinciding with Youth club evening. It was also reported that some Graffiti was on the internal walls of the public toilets and that takeaway containers were being left in the urinals even though there were plenty of refuse bins adjacent to the toilets. The clerk to speak and bring the matter to the attention of Steve Parkin Youth Worker and the PCSO.

Pontsian

Cllr Gethin Jones explained the need for better pre-planning from Ceredigion when roads are being closed.

Report by County Councillors

E-mail correspondence was received as requested providing the Council with detailed information on Cllr Keith Evans Llandysul South wards' activities for the period 15 September-12 October and noted. Cllr Maldwyn Lewis highlighted some ward and County Council issues and wished to also congratulate the Garthen for the service and local news that it had provided in its 45 years of existence.

Bardd y Dref

It was decided that the clerk contact the Welsh Department at Ysgol Bro Teifi with regards the Bardd y Dref project to see if they had any suggestions for their potential participation in the project.

DRAFT

Cafwyd yr adroddiad Archwilio ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2025/26 ac roedd wedi pasio heb unrhyw bryderon.

Cyngor Sir Ceredigion
Anfonir ffurflenni praesept yn gynnar ym mis Rhagfyr 2026. Bydd angen cael ffigurau erbyn 29 Ionawr 2027.

Cynllunio
Ni chafwyd unrhyw geisiadau

Gwybodaeth Ariannol

Llinos Jones – Ysgrifennwyd siec am y swm o £149.61 am y gwaith cyfieithu ym mis Medi.
LAS Recycling Ltd - Ysgrifennwyd siec am y swm o £103.62 am gasglu sbwriel ym Mharc Coffa Llandysul a Chaeau Tirdref ar gyfer mis Medi
Mark Wilson – Cafwyd anfoneb am y swm o £806 am Gynnal a chadw y llwybr troed o Safle Bws Ysgol Bro Teifi i Afon Teifi, Y Ffawydd i'r Hen Ysgol Gynradd, Llwybr Troed 75-80 Y Ffawydd, Llwybr Troed 48 Y Ffawydd i Barc yr Ynn, cynnal a chadw y Ffawydd a'r fainc ger Ysgol Bro Teifi.
Apêl y Pabi – Ysgrifennwyd siec am y swm o £150.
ICO – Ysgrifennwyd siec am y swm o £52 i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar gyfer GDPR a Deddf Diogelu Data 2018.

Ysgrifennwyd sieciau i'r canlynol fel y cytunwyd yn flaenorol, fel rhodd flynyddol:-

- Cymdeithas Chwaraeon £5,000
- Calon Tysul - £6,000
- Ymddiriedolwyr y Parc - £3,000

Correspondence

Clerks and Councils Direct were received and noted.
Age Friendly Ceredigion magazine was received

Remembrance Sunday
A letter was received from Reverend Canon Gareth Reid inviting a member of Council to read the lesson at the Remembrance Sunday service to be held at St Tysul Church on Sunday 8 November 2026 at 11.00 am. Those that are part of the procession to gather at 10.45am at the memorial plaque by the entrance to the Memorial Park. Chair Peter Evans would represent the Council and provide the reading and lay a wreath on behalf of the Community Council. An invitation was extended for all to attend. It was resolved to provide £150.00 in aid of the Annual Poppy Appeal

Audit Wales
The Audit report had been Received for the Financial Year 2025/26 and passed with no cause of concern.

Ceredigion County Council
Precept forms will be sent early December 2026. Figures will be needed by 29th January 2027.

Planning
No applications were received

Financial Information

Llinos Jones – Cheque for £149.61 was written for September translation.
LAS Recycling Ltd - Cheque was written for £103.62 for refuse

DRAFT

collection from Llandysul Memorial Park and Tirdref Fields for the months of September
Mark Wilson – Invoice for £806 was received to Maintain footpath from Bus Shelter Ysgol Bro Teifi to River Teifi, Beeches to Old Primary School, Footpath 75-80 The Beeches, Footpath 48 Beeches to Parc yr Ynn, maintain Beeches and the bench by Ysgol Bro Teifi.
Poppy Appeal – A cheque was written for £150.
ICO – Cheque was written for £52 to the Information Commissioner's Office for GDPR and Data Protection Act 2018.

Cheques were written to the following as previously agreed to be a yearly donation:-

- Cymdeithas Chwaraeon £5,000
- Calon Tysul - £6,000
- Park Trustees - £3,000

DRAFT

Sieciau/Signing of Cheques:

Arwyddwyd Sieciau/Signing of Cheques
Gorchmynnwyd ac i'w tynnu gan y Trysorydd/
Ordered and same are hereby drawn on the Treasurer:-

Sieciau Mis Hydref/ Cheques October

		Swm	*Rhif siec/*
		Amount	*Cheque number*
		£ c/£ p	
Nia Davies	Cyflog y Clerc October	675.10	001469
HMRC	Cyflog y Clerc	232.60	001470
Nia Davies	Zoom	551.88	001471
ICO	Membership	52.00	001472
LAS	Sbwriel/Refuse	103.62	001473
Mark Wilson	Cynnal a Chadw	806.00	001474
Llinos Jones	Cyfieithu/Translation	149.61	001475
Calon Tysul	Rhodd/Donation	6000.00	001476
Cymdeithas Chwaraeon	Rhodd/Donation	5000.00	001477
Park Trustees	Rhodd/Donation	3000.00	001478
Cancelled			001479
Gŵyl Gerdded	Rhodd/Donation	500.00	001480
Clwb Ffermwyr Ifanc Pontsian	Rhodd/Donation	750.00	001481
Poppy Appeal	Rhodd/Donation	150.00	001482

DRAFT

DRAFT